**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 416**
**19 Ebrill, 2018, S4C Llanisien, Caerdydd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) | |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Bwrdd) | |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) | |
| | Guto Harri | (Aelod o'r Bwrdd) | |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) | |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) | |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) | |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) | |
| | Hannah Evans | (Swyddog Dadansoddi) | |
| | Steve Thomas | (Ymgynghorydd Strategaeth a Pholisi) | |
| | Carys Evans | (Arweinydd Tîm Data a Dadansoddi) | (eitem 7.2) |
| | Huw Jones | (Uwch Swyddog Ystadegol) | (eitem 7.2) |
| | Margaret Hughes | (Pennaeth Cyllideb Cynnwys) | (eitem 7.2) |
| | Chris Morris | (Swyddog Dadansoddi) | (eitem 7.2) |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) | (eitem 6) |
| | Alun Thomas | (Ysgrifennydd Cynorthwyol i'r Awdurdod) | |
| **Ymddiheuriadau:** | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Awdurdod) | |
| | John Davies | (Aelod o'r Awdurdod) | |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) | |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2 **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 415 a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 415 a nodwyd y materion canlynol.

2.1 **Tymhorau Aelodau a phenodiadau newydd i Fwrdd yr Awdurdod**

[**Crynodeb:** Esboniodd y Cadeirydd y diweddaraf gan y DCMS am y penodiadau newydd.]

2.2 **Cymeradwyo Cyllideb 2018-19**

[**Crynodeb:** Nodwyd un cywiriad i'r cofnod am Gyllideb 2018-19.]

**Gyda'r newid uchod, cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 415.**

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 415**

3.1 **Diweddariad Loteri Cymru**

**[Crynodeb:** Mae'r Bwrdd Masnachol ar y cyd gyda Loteri Cymru a Grant Thornton wedi parhau i geisio prynwr ar gyfer y loteri. Roedd yn ymddangos y gallai adroddiad terfynol y gweinyddwyr gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin. Nodwyd fod Hanfod wedi cyflwyno cais am oddeutu £15k i ariannu strwythur symlach i weinyddu'r grantiau sydd eisoes wedi eu dosrannu.]

Cymeradwyodd y Bwrdd argymhelliad i gynnig oddeutu £15k tuag at gostau gweinyddu'r grantiau sydd eisoes wedi eu dosbarthu gan Hanfod dros gyfnod hyd at flwyddyn.

3.2 **Adleoli a materion staffio**

Cyflwynwyd diweddariad parthed elfennau staffio'r prosiect Adleoli.

Nodwyd y bydd pwysau ar yr Adran Adnoddau Dynol yn ystod y cyfnod nesaf wrth i nifer o swyddi gael eu hysbysebu wrth i rai staff benderfynu gadael. Mae NB yn parhau i ddarparu cyngor i'r adran, a gobeithir y bydd modd penodi Pennaeth Adnoddau Dynol yn fuan er mwyn cydlynu'r gwaith recriwtio a pharatoi systemau staffio S4C ar gyfer symud i'r Egin.

Nodwyd fod nifer o geisiadau am swyddi eisoes wedi dod i law yn ardal Caerfyrddin. Roedd swyddi gwag wedi eu hysbysebu yn y wasg leol yn y Gorllewin yn ogystal ag yn y papurau cenedlaethol ac ar-lein. Awgrymwyd y dylid ystyried defnyddio safle indeed.com ar gyfer hysbysebu swyddi yn y dyfodol.

4. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu a nodwyd fod y gofrestr wedi ei diweddaru yn dilyn derbyn sylwadau cynhwysfawr gan OE.

Cyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

**Rhif 14. Partneriaethau -** Nodwyd bod y gwaith o baratoi strategaeth partneriaethau newydd yn parhau, ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd fel rhan o'r gwaith o baratoi ymateb S4C i DCMS.

**Rhif 20 – Adnoddau priodol ar gyfer delio gyda cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.** Nododd PW fod dau gais cymhleth ar y gweill ar hyn o bryd. Roedd bwriad i ystyried yr anghenion adnoddau ar gyfer ceisiadau cyffredinol yn dilyn delio gyda'r ceisiadau presennol, a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod busnes nesaf y Pwyllgor Cwynion.

**Rhif 21 – Nosweithiau Gwylwyr -** Cafwyd trafodaeth am opsiynau ar gyfer trafod gyda'r gynulleidfa. Pwysleisiwyd yr angen i wahaniaethu rhwng nosweithiau gwylwyr a chyfleoedd i'r gynulleidfa fynegi barn a'r rhaglen o waith ymchwil proffesiynol sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn.

Holwyd a oedd ymateb y gynulleidfa mewn nosweithiau gwylwyr yn gallu arwain at newidiadau neu benderfyniadau, neu ai gwerth PR yn unig oedd i'r nosweithiau. Nodwyd fod nosweithiau gwylwyr yn gallu bod yn ddull pwysig er mwyn deall pwysigrwydd pynciau penodol o fewn y gynulleidfa graidd os ydynt

yn codi'n rheolaidd. Cyfeiriwyd hefyd at noson gwylwyr Yr Wyddgrug fel enghraifft lle cafwyd sylwadau cryf iawn am ddiffyg cynrychiolaeth y gogledd ddwyrain ar y gwasanaeth a arweiniodd i newidiadau o fewn yr arlwy a chyfres Heno'n benodol.

Awgrymwyd y dylid ystyried cyfleoedd i drafod gyda'r gynulleidfa gan ddefnyddio llwyfannau ar-lein yn ogystal â chyfarfodydd lleol, gan gofio am y gwahaniaeth rhwng rhoi cyfleoedd i'r gynulleidfa fynegi barn, ac ymchwil ansoddol a meintiol proffesiynol.

Penderfynwyd y dylid parhau i drefnu nosweithiau gwylwyr ar gyfer 2018, ac y dylid ystyried dulliau newydd o ganfod barn y gynulleidfa, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol**.**

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 **Cyfarfod gyda Phwyllgor Archwilio'r BBC**

Adroddwyd fod y Cadeirydd, HHE a PW wedi cyfarfod â Phwyllgor Archwilio'r BBC, lle'r oedd uwch swyddogion y BBC, gan gynnwys Syr David Clementi, yr Arglwydd Hall ac Anne Bulford yn bresennol. Roedd swyddogion yr NAO hefyd yn bresennol yn y cyfarfod.

Roedd y cyfarfod cyntaf wedi bod yn gyfle i drafod natur y berthynas atebolrwydd ariannol rhwng S4C a'r pwyllgor archwilio, ac roedd yn glir fod y pwyllgor yn awyddus i drafod ffordd gall a phriodol o gyflwyno atebolrwydd am wariant Ffi'r Drwydded i'r BBC.

Nodwyd fod uwch swyddogion y BBC ac aelodau'r Pwyllgor yn deall sensitifrwydd y berthynas a'r angen i barchu annibyniaeth S4C a'r BBC wrth ddatblygu'r berthynas atebolrwydd ariannol.

Roedd y Cadeirydd wedi cael cyfarfod gyda chadeirydd y Pwyllgor, Simon Burke cyn y cyfarfod. Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle pwysig i drafod natur y berthynas ar gyfer y dyfodol, ac roedd Simon Burke yn gwerthfawrogi sensitifrwydd y berthynas a'r angen i sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran atebolrwydd ariannol ac annibyniaeth.

Awgrymodd ECS ei bod wedi bod yn bwysig i sefydlu'r berthynas a'r egwyddorion ar lefel Cadeirydd y Bwrdd, a gan fod perthynas adeiladol wedi ei sefydlu gellid ystyried yn y dyfodol ddirprwyo'r berthynas atebolrwydd ariannol i gadeiryddion y pwyllgorau archwilio.

5.2 **Aelodaeth Bwrdd yr Awdurdod**

Nododd y Cadeirydd fod cyfweliadau wedi'u cynnal i benodi aelodau newydd i Fwrdd yr Awdurdod.

Gobeithir y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dod i benderfyniad parthed aelodau newydd yn fuan.

Nid oedd diweddariad wedi ei dderbyn parthed ail benodiadau hyd yma, ond roedd swyddogion yn parhau i drafod gyda swyddogion DCMS ac roeddynt yn gobeithio cael penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn fuan.

5.3 **Cyfarfod Cadeiryddion DCMS**

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod ar gyfer Cadeiryddion cyrff cyhoeddus DCMS, a chafodd gyfle i drafod nifer o faterion gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, yr Ysgrifennydd Parhaol, Sue Owen, a chyfarwyddwr newydd yr adran benodiadau cyhoeddus.

Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod ei gyflwyniad yr angen i gyrff weithio gyda'i gilydd a gyda'r adran er mwyn paratoi achos cynhwysol ar gyfer Adolygiad Gwariant 2019. Nodwyd y bydd llunio achos sy'n pwysleisio gwerth cyhoeddus a chymdeithasol cyrff DCMS yn bwysig.

Nodwyd y bydd angen i'r gwaith gyd-fynd gyda gofynion fersiwn ddiweddaraf Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.

Nododd GH y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynychu Gŵyl y Gelli ym mis Mai, ac y gellid ceisio trefnu cyfarfod gyda'r Cadeirydd ac OE yn ystod yr ŵyl.

5.4 **Paratoi Ymateb S4C i Adroddiad Euryn Ogwen ac ymateb DCMS**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dair dogfen a gyflwynwyd fel rhan o bapurau'r Bwrdd a oedd yn cynnwys sgerbwd o araith ar gyfer digwyddiad yr RTS, a dwy ddogfen yn cynnwys ymateb i argymhellion yr Adroddiad ac Ymateb DCMS.

Cafwyd trafodaeth am araith ddrafft y Cadeirydd ar gyfer digwyddiad yr RTS. Nododd y Cadeirydd y byddai'n diweddaru'r araith yn dilyn awgrymiadau'r Bwrdd.

5.5 **Cynllun Gweithredu**

Cyflwynwyd y cynllun gweithredu drafft a nodwyd fod y DCMS yn disgwyl i S4C gyflwyno diweddariad cynnydd erbyn mis Gorffennaf.

Awgrymwyd y gellid dehongli ac ymateb i'r Adolygiad mewn dwy ffordd – naill ai ymateb yn gadarnhaol i'r prif argymhellion a nodi lle y mae S4C eisoes wedi mynd ati weithredu, neu ddarllen rhwng y llinellau ac ymateb i bob pwynt ac awgrym.

Roedd y Bwrdd o'r farn fod angen cyflwyno ymateb cadarnhaol i'r Adolygiad ac Ymateb DCMS, gan nodi lle roedd S4C yn cytuno gyda'r argymhellion a'r sylwadau a lle mae camau eisoes wedi eu cymryd er mwyn gweithredu yn unol â'r argymhellion.

Cafwyd trafodaeth am sylwadau'r Adroddiad parthed ariannu, a lefel ariannu S4C ac ymateb DCMS. Roedd yn siomedig nad oedd yr Adroddiad wedi ystyried gofynion ariannu S4C yn eu cyfanrwydd, ond roedd angen cofio nad oedd ystyried lefel ariannu S4C yn rhan o gylch gorchwyl yr Adolygiad. Serch hyn, roedd yr Adolygydd wedi nodi ei farn ar adegau.

Roedd angen canolbwyntio ar yr agweddau ariannol cadarnhaol, sef cydnabod fod toriadau arfaethedig yr Adolygiad Gwariant wedi eu dileu, a bod hyn yn

newyddion da o ran sefydlogrwydd ariannol S4C yn ystod y tair blynedd nesaf, a nodi fod yr Adolygydd wedi nodi'r angen am fframwaith ar gyfer ystyried anghenion ariannu'r dyfodol gan ddyfynnu egwyddorion ariannu'r EBU.

5.6 **Papur Cynllun Gweithredu**

Cyflwynwyd Papur 1a – y Cynllun Gweithredu.

Cymeradwywyd yr argymhellion canlynol yn y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol:

1a. – Cymeradwywyd y papur 'Cynnwys Cymraeg ar lwyfannau digidol' a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth, a chymeradwywyd gwariant o £1m y flwyddyn am 3 mlynedd ar ddatblygiadau digidol.

1b. Panel Ymgynghorol
Cymeradwywyd yr egwyddor o lunio rhestr o bobl allanol y gellid ymgynghori â nhw yn ôl y galw i gynghori ar faterion penodol.

**Penderfynwyd y dylid parhau i ystyried pwrpas a strwythur yr Hyb Digidol.**

**3a. Partneriaethau**
Roedd beirniadaeth yn yr Adroddiad am waith partneriaethau presennol S4C. Nodwyd fod camau eisoes wedi eu cymryd er mwyn gwella perthynas S4C gyda'r prif bartneriaid iaith, megis penderfyniad OE i sefydlu'r fforwm partneriaid iaith.

Wrth ystyried llunio ymateb i'r Adroddiad, byddai angen i S4C allu profi'r gallu i bartnera'n llwyddiannus gydag ystod o randdeiliaid a sefydliadau. Nododd OE ei fod yn awyddus i'r Adran Gynnwys a'r Comisiynwyr arwain a chymryd gofalaeth am bartneriaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol gyda chynnwys a rhaglenni S4C.

**3b. Y Gwasanaeth Newyddion**
Cyfeiriwyd at y sylwadau am y ddarpariaeth Newyddion yn yr Adroddiad. Nodwyd fod cynnwys Newyddion 9 yn fater i'w drafod gyda'r BBC fel rhan o'r trafodaethau golygyddol arferol, ac nid oedd hyn yn fater i'w gyhoeddi fel rhan o ymateb cyhoeddus S4C.

Nodwyd fod perthynas olygyddol gadarnhaol wedi datblygu rhwng S4C a'r BBC ac roedd gwarchod a datblygu'r berthynas er mwyn gallu trafod newidiadau a datblygiadau i elfennau o'r ddarpariaeth megis Newyddion 9.

**3c. Prosesau Comisiynu**
Nododd y Cadeirydd nad oedd argraffiadau'r Adolygiad parthed y broses gomisiynu yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, a bod yr enghreifftiau a nodwyd yn cyfeirio nôl i gyfnod a system a ddaeth i ben yn 2016. Roedd araith y Cadeirydd ar gyfer digwyddiad yr RTS yn nodi hyn.

**3ch, 3d a 3dd**
Nodwyd yr angen i ddatblygu gwaith S4C ym maes hyfforddiant a sgiliau, ac yn benodol yr angen i ystyried datblygu sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg, gan gynnwys sicrhau cyfleoedd i awduron ddatblygu gwaith ar gyfer S4C ar ôl derbyn hyfforddiant.

**4. Partneriaeth iaith**
Nododd OE ei fod eisoes wedi sefydlu grŵp a oedd yn cynnwys y prif bartneriaid iaith, a'i fod yn bwriadu parhau i drafod gyda'r grŵp a thrafod sut i gydweithio ar strategaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru'n benodol.

Roedd y Cadeirydd yn falch fod DCMS wedi cydnabod a derbyn am y tro cyntaf wir yn hanes S4C fod gan S4C rôl i'w chwarae o ran datblygu'r iaith, ac yn ogystal bod DCMS yn deall bod angen i S4C gynnal perthynas gyda Llywodraeth Cymru ym maes yr iaith.

Nodwyd fod ymateb S4C i'r drafodaeth am ddatganoli S4C a darlledu wedi bod yn gyson ers cyfnod Comisiwn Silk, pryd cyflwynodd S4C dystiolaeth ffeithiol i'r Comisiwn yn nodi'r cwestiynau a'r pynciau y byddai angen eu hystyried wrth drafod datganoli S4C a darlledu, yn hytrach na chynnig barn ar y mater.

**5. Cyllido a Ffi'r Drwydded**
Wrth ymateb i'r argymhelliad i ddarparu holl incwm cyhoeddus S4C o Ffi'r Drwydded yn y dyfodol, nodwyd yr angen i sicrhau fod esboniad yn cael ei gyflwyno pam fod S4C bellach yn fodlon ar y trefniant hwn, o gofio fod sicrhau mwy nac un ffynhonnell ariannol wedi bod yn rhan bwysig o'r naratif yn y gorffennol.

Ers sefydlu'r berthynas newydd gyda'r BBC, a ddaeth i rym yn 2013, mae'r BBC ac S4C wedi datblygu perthynas newydd sydd wedi llwyddo i barchu egwyddorion sy'n bwysig i'r BBC ac S4C, gan gynnwys annibyniaeth S4C. Mae'r profiad o weithredu'r bartneriaeth yn dangos y byddai modd derbyn arian cyhoeddus S4C o ffynhonnell Ffi'r Drwydded heb amharu ar annibyniaeth S4C.

Nodwyd hefyd yr angen i bwysleisio mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn parhau â chyfrifoldeb dros benderfynu ar lefel 'ariannu digonol' S4C o dan y darpariaethau statudol.

**6. Masnachol**
Roedd yr Adroddiad ac Ymateb DCMS wedi creu disgwyliad ei bod yn hawdd i S4C gynyddu ei hincwm masnachol, heb fanylu ar sut y gellid gwneud hyn. Bydd digwyddiad yr RTS a'r cyfarfod arfaethedig gydag EOW yn gyfle i glywed rhagor am syniadau EOW yn y maes masnachol.

Nodwyd fod y Bwrdd wedi ystyried y strategaeth fasnachol ar nifer o achlysuron dros y misoedd diwethaf, ac roedd y Bwrdd Masnachol hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Bydd angen parhau gyda'r gwaith o ddatblygu strategaeth a strwythur newydd ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd maes o law.

Roedd ystod o opsiynau i'w hystyried o ran strategaeth fasnachol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys buddsoddi mewn rhaglenni a chyd-gynyrchiadau, ystâd Parc Tŷ Glas, mentrau digidol ac ati.

Nodwyd yr angen i sicrhau ffocws clir ar gyfer strategaeth fasnachol newydd, gan ddysgu o wersi hanes gweithgareddau masnachol S4C, gan gynnwys llwyddiannau penodol megis Sam Tân ac SDN, a mathau o brosiectau nad oedd wedi profi'n llwyddiannus.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod gyda Carol Bell yn ddiweddar a'u bod wedi cytuno y byddai CB yn ymddeol fel cadeirydd y grŵp masnachol ym mis Mai, ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ac arwyddo cyfrifon y grŵp. Byddai'r amseru hyn yn cyd-fynd gyda'r gwaith o ddatblygu strwythur a strategaeth newydd ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C yn y dyfodol. Nododd y byddai cyfle maes o law i'r Bwrdd ddiolch i CB am ei gwasanaeth ar y Bwrdd Masnachol a hynny ar ôl i'w thymor fel Aelod o'r Awdurdod ddod i ben.

Penderfynwyd y dylid ystyried opsiynau ar gyfer strategaeth fasnachol S4C yn y dyfodol cyn cyflwyno unrhyw argymhellion penodol o ran strategaeth a mentrau newydd ac opsiynau ar gyfer strwythur gweithgareddau masnachol yn y dyfodol.

6. **Cyflwyno Strategaeth Amrywiaeth ddiwygiedig**

Cyflwynodd CHR fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Amrywiaeth a oedd wedi ei llunio yn dilyn trafodaeth yr Awdurdod ym mis Mawrth.

Nododd OE ei fod yn awyddus i S4C ystyried ystod eang o faterion o dan faner amrywiaeth, gan gynnwys symudedd cymdeithasol a thâl cyfartal ar gyfer menywod a dynion. Roedd gwaith paratoi ar y gweill er mwyn gallu adrodd ar dal menywod a dynion a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai.

Nododd CHR fod y strategaeth ddiwygiedig wedi ei symleiddio yn dilyn mewnbwn y Bwrdd ym mis Mawrth.

Nodwyd fod gwefan S4C yn cynnwys nifer o ddogfennau sy'n cyfeirio at ymrwymiad S4C i amrywiaeth ers 2011, ac nid oedd yn glir beth oedd perthynas y Strategaeth ddiwygiedig gyda'r dogfennau hyn. Roedd angen sicrhau fod unrhyw ddogfennau newydd yn cymryd i ystyriaeth yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers 2011, gan gynnwys dogfennau, strategaethau ac ymrwymiadau sy'n parhau i fod yn gyfredol. Byddai angen esbonio i'r Bwrdd sut y mae'r Strategaeth newydd yn cyd-blethu gyda'r dogfennau hyn.

Mynegwyd elfen o bryder nad oedd y papur yn cyflwyno prosiectau a deilliannau penodol, a holwyd hefyd a fyddai modd cyflawni'r hyn oedd yn cael ei amlinellu yn y ddogfen. Nododd y Bwrdd yr angen i sicrhau fod y strategaeth yn arwain at weithredoedd a deilliannau penodol.

Nodwyd awydd y Bwrdd i weld a deall mwy am brosiectau penodol a fydd yn ymateb i weledigaeth y Prif Weithredwr i ganolbwyntio ar bortreadu amrywiaeth ar-sgrin.

Nodwyd hefyd gais i ddeall mwy am opsiynau ar gyfer cynlluniau prentisiaethau, megis y cynlluniau diweddar y mae BBC Cymru wedi eu cyhoeddi.

Cymeradwywyd cyfeiriad cyffredinol y ddogfen ddiwygiedig a gyflwynwyd, ond nodwyd yr angen i sicrhau fod statws y ddogfen a'i pherthynas gyda dogfennau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd (gan gynnwys e.e. yr Ymrwymiad i Amrywiaeth a Chynllun Gweithredu 2016-2020) yn glir.

Nodwyd y bydd angen cyflwyno diweddariad parthed statws y ddogfen ddiweddaraf a dogfennau eraill i'r Bwrdd.

Penderfynodd y Bwrdd y dylid ystyried cynlluniau penodol ar gyfer sut i adlewyrchu bwriad OE i roi rhagor o ffocws i Amrywiaeth a sut i hyrwyddo amrywiaeth ar-sgrin.

7. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

7.1 **Prosiectau Adleoli a Chydleoli**

Roedd y gwaith adeiladu yn yr Egin wedi wynebu cyfnod o oedi yn ddiweddar o ganlyniad i broblem gyda'r paent ar fframwaith dur yr adeilad, ond roedd y broblem wedi ei datrys erbyn hyn, gyda'r oedi a achoswyd wedi ei adennill. Roedd y contractwyr yn hyderus y bydd yr adeilad yn cael ei gwblhau yn unol â'r amserlen wreiddiol.

Holwyd am ymateb y staff erbyn hyn i'r prosiect adleoli, ac esboniwyd fod gwerthfawrogiad ymhlith y staff o natur agored y trafodaethau a lefel y wybodaeth sy'n cael ei rannu gan OE. Fodd bynnag, ni ellir dweud ei fod yn gynllun poblogaidd iawn ymysg mwyafrif y staff presennol.

Nodwyd fod y gwaith adeiladu ar y ffordd gyswllt newydd wedi ail-ddechrau.

7.2 **Dadansoddi Strategaeth 2017/18 a chyflwyno Strategaeth 2019/20**

Cyflwynodd AR a'r Tîm Dadansoddi dadansoddiad Strategaeth Cynnwys 2017/18.

**[Crynodeb:** Nodwyd fod patrymau gwylio'n newid ar draws y DU, a bod S4C yn dilyn y patrymau hyn. Roedd yn creu her i S4C ond yn gyfle i ymestyn y gynulleidfa ac i sicrhau fod S4C yn berthnasol i'r dyfodol. Er bod gwylio ar-alw'n cynyddu'n sylweddol, roedd gwylio byw dal yn bwysig yn enwedig gyda'r digwyddiadau, chwaraeon a rhaglenni poblogaidd y mae llawer o sôn amdanynt.

Ymhlith pethau eraill, soniwyd am yr ystyriaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth i ddysgwyr ar-lein gan greu un o sianelau digidol S4C. Trafodwyd yr arlwy chwaraeon a'r effaith posibl o golli'r hawliau i'r Pro14. Cyfeiriwyd hefyd at yr opsiynau ar gyfer amserlen oriau brig y penwythnos ac effaith unrhyw newid ar y broses a modd o gynhyrchu cyfresi penodol. Awgrymwyd y gellid defnyddio Clic fel 'amserlen amgen' ar adegau penodol.]

Nodwyd fod y Bwrdd yn gwerthfawrogi'r cyfle i ystyried goblygiadau strategol yr amserlen, gan gynnwys pwysigrwydd chwaraeon byw a'r angen i sicrhau cydbwysedd o ran genres o fewn amserlen yr oriau brig ar y penwythnos, ond nid oedd y Bwrdd am ymyrryd mewn penderfyniadau golygyddol unigol.

Cymeradwywyd y cyfeiriad strategol a gyflwynwyd ar gyfer Strategaeth 2019/20, a nodwyd y byddai gofyn i swyddogion gymryd penderfyniadau amserlennu a blaenoriaethu penodol o fewn y strategaeth.

8. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

[**Crynodeb:** Roedd y ffigyrau gwylio a'r drafodaeth ar gyfryngau cymdeithasol yn tystio i boblogrwydd Ffit Cymru ac roedd arddull naturiol Wil ac Aeron yn apelio at ystod eang o'r gynulleidfa. Nodwyd canmoliaeth i waith ymchwil a straeon diweddar y Byd Ar Bedwar.]

9. **Adroddiad y Wifren**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

10. **Rhaglen Waith**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Bwrdd yr Awdurdod er gwybodaeth.

11. **Adroddiad Cwynion**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion a nodwyd y materion canlynol.

Roedd cwyn wedi ei dderbyn parthed fideo ar wasanaeth Hansh . Roedd ymateb wedi ei ddanfon i'r achwynwr.

12. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.